***Statws*** *This is the original version (as it was originally made). Dim ond ar ei ffurf wreiddiol y mae'r eitem hon o ddeddfwriaeth ar gael ar hyn o bryd.*

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2003 Rhif 152 (Cy.22) (C.8)

# GOFAL CYMDEITHASOL, CYMRU PLANT A PHOBL IFANC, CYMRU

## Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 10) a Darpariaethau Trosiannol (Cymru) 2003

*Wedi'i wneud - - 29 Ionawr 2003*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 118(6) a (7) a 122 o Ddeddf Safonau Gofal 2000(**1**) drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn canlynol:

### Enwi, dehongli a chymhwyso

**1.**—(1) Enw'r gorchymyn hwn yw Gorchymyn Deddf Safonau Gofal 2000 (Cychwyn Rhif 10) a Darpariaethau Trosiannol (Cymru) 2003.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Safonau Gofal 2000;

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i Gymru.

### Dyddiau penodedig

**2.**—(1) 30 Ionawr 2003 yw'r diwrnod a benodwyd ar gyfer dwyn i rym ddarpariaethau canlynol y Ddeddf—

(a) adrannau 8, 9(1) a (2), 10(2) i (7), 11 i 15, 17 i 21, 24, 26 i 32, 36 a 37 i'r graddau y mae eu darpariaethau —

(i) yn ymwneud â chanolfannau preswyl i deuluoedd, asiantaethau maethu, ac asiantaethau mabwysiadau gwirfoddol; a

(ii) nad ydynt eisoes mewn grym;

(b) adrannau 45 a 46;

(c) adran 53 i'r graddau y mae'n ymwneud â swyddogaethau maethu perthnasol;

(ch) adran 116 i'r graddau y mae'n ymwneud â pharagraffau 5 (2), (4), (5), (7)(a) a (9) i (11) o Atodlen 4;

(**1**) 2000 p.14. Rhoddwyd y pwerau i'r Gweinidog priodol. Ystyr "Gweinidog priodol" yw'r Cynulliad mewn perthynas â Chymru, a'r Ysgrifennydd Gwladol mewn perthynas â Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon (a.121(1) o'r Ddeddf). Ystyr "Cynulliad" yw Cynulliad Cenedlaethol Cymru (a.5(b) o'r Ddeddf).

(d) adran 117 i'r graddau y mae'n ymwneud â:

(i) paragraff 2 o Atodlen 5; a

(ii) Atodlen 6 i'r graddau y mae'n ymwneud ag adrannau 3, 4(1) a 4 (3), 5 a 9 (1) o Ddeddf Mabwysiadu 1976(**2**).

(2) 1 Chwefror 2003 yw'r diwrnod a benodwyd ar gyfer dwyn i rym adrannau 105 a 106 a pharagraff 21 o Atodlen 4 o'r Ddeddf.

**Darpariaethau Trosiannol mewn perthynas ag asiantaethau mabwysiadu gwirfoddol**

**3.** Bydd asiantaeth fabwysiadu gwirfoddol a gymeradwywyd, yn union cyn 30 Ebrill 2003, o dan adran 3 o Ddeddf Fabwysiadu 1976, yn cael ei thrin o 30 Ebrill 2003 ymlaen fel petai wedi gwneud cais am gael ei chofrestru o dan y Ddeddf a chael ei chofrestru o dan y Ddeddf honno.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**3**)

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

29 Ionawr 2003

(**2**) 1976 p.36.
(**3**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gochymyn hwn yn dod â nifer o ddarpariaethau Deddf Safonau Gofal 2000 i rym mewn perthynas â rheoleiddio Canolfannau Preswyl i Deulueodd, Asiantaethau Mabwysiadu Gwirfoddol, Asiantaethau Maethu a Gwasanaethau Mabwysiadau Awdurdodau Lleol. Effaith y Gorchymyn hwn fydd dod â'r sefydliadau a'r asiantaethau hyn o fewn fframwaith rheoleiddio Deddf Safonau Gofal 2000, a gaiff ei orfodi yng Nghymru gan Gynulliad Cenedlaethol Cymru.

Mae darpariaethau pellach yn ymwneud â rhai darpariaethau o Ran VIII o Ddeddf Safonau Gofal 2000 eu heffaith yw diwygio Rhan XII o Ddeddf Plant 1989 ("Deddf 1989") ac sy'n dod i rym ar 1 Chwefror 2003. Effaith y diwygiadau yw ehangu'r ddyletswydd i fonitro lles plant sy'n preswylio i bob ysgol a choleg addysg bellach sy'n darparu llety i blant. Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru yn disodli'r awdurdod lleol fel y corff monitro. Mae darpariaethau adrannau 87A ac 87B o Ddeddf 1989 sy'n caniatáu i sefydliadau benodi arolygydd wedi'i gymeradwyo i fonitro eu darpariaeth les yn yr un modd yn cael eu hestyn i bob ysgol a choleg addysg bellach sy'n darparu llety i blant.

## NOTE AS TO EARLIER COMMENCEMENT ORDERS

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae darpariaethau Deddf Safonau Gofal 2000 ("y Ddeddf") y gwneir cofnod mewn perthynas â hwy yn y Tabl isod wedi'u dwyn i rym mewn perthynas â Chymru ar y dyddiad a bennir gyferbyn â'u cofnod. Cafodd y darpariaethau hynny y dilynir y cofnod amdanynt ag '(**a**)' eu dwyn i rym gan O.S. 2000/2992 (Cy.192) (C.93); cafodd y rhai a ddilynir gan '(**b**)' eu dwyn i rym gan O.S. 2001/139 (Cy.5) (C.7); cafodd y rhai a ddilynir gan '(**c**)' eu dwyn i rym gan O.S. 2001/2190 (Cy.152) (C.70); cafodd y rhai a ddilynir gan '(**ch**)' eu dwyn i rym gan O.S.. 2001/2354 (Cy.192) (C.80); cafodd y rhai a ddilynir gan '(**d**)' eu dwyn i rym gan O.S. 2001/2504 (Cy.205) (C.82); cafodd y rhai a ddilynir gan '(**dd**)' eu dwyn i rym gan O.S. 2001/2538 (Cy.213) (C.83); cafodd y rhai a ddilynir gan '(**e**)' eu dwyn i rym gan O.S. 2001/2782 (Cy.235) (C.92); cafodd y rhai a ddilynir gan '(**f**)' eu dwyn i rym gan O.S. 2002/920 (Cy.108) (C.24) a chafodd y rhai a ddilynir gan '(**ff**)' eu dwyn i rym gan O.S. 2002/1175 (Cy.123) (C.31).

| *Y Ddarpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* |
|---|---|
| Adrannau 1 i 5 (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 7(7) (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 8 (yn rhannol) (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 8 (yn rhannol) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 9(3) i (5) (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 9 (yn rhannot) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 10(2) i (7) (yn rhannol) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adrannau 11 a 12 (yn rhannol) (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adrannau 11 a 12 (yn rhannol) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |

| *Y Ddarpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* |
|---|---|
| Adran 13 (yn rhannol) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adrannau 14 a 15 (yn rhannol) (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adrannau 14 a 15 (yn rhannol) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 16 (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adrannau 17 to 21 (yn rhannol) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adrannau 22 i 23 (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 24 (yn rhannol) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 25 (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adrannau 26 i 32 (yn rhannol) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adrannau 33 i 35 (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 36 (yn rhannol) (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 36 (yn rhannol) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 37 (yn rhannol) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 38 (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 39 (yn rhannol) (**d**) | 31 Gorffennaf 2001 |
| Adran 39 (gweddill) (**d**) | 31 Awst 2001 |
| Adran 40 (yn rhannol) (**b**) | 1 Chwefror 2001 |
| Adran 40 (gweddill) (**b**) | 28 Chwefror 2001 |
| Adran 41 (**b**) | 28 Chwefror 2001 |
| Adrannau 42 i 43 (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adrannau 48 i 52 (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 54(1), (3) i (7) (**a**) | 1 Ebrill 2001 |
| Adran 55 ac Atodlen 1 (**a**) | 1 Ebrill 2001 |
| Adrannau 56 i 62 (yn rhannol) (**ff**) | 30 Ebrill 2002 |
| Adran 63 (**dd**) | 31 Gorffennaf 2001 |
| Adran 64(2) i (4) (yn rhannol) (**ff**) | 30 Ebrill 2002 |
| Adran 65 (yn rhannol) (**ff**) | 30 Ebrill 2002 |
| Adran 66 (**dd**) | 31 Gorffennaf 2001 |
| Adran 67 (**dd**) | 1 Hydref 2001 |
| Adran 70(1) (**dd**) | 1 Hydref 2001 |
| Adran 71 (yn rhannol) (**dd**) | 31 Gorffennaf 2001 |
| Adran 71 (gweddill) (**ff**) | 30 Ebrill 2002 |
| Adran 72 ac Atodlen 2 (**a**) | 13 Tachwedd 2000 |
| Adran 72A (**e**) | 26 Awst 2001 |

| *Y Ddarpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* |
|---|---|
| Adran 72B ac Atodlen 2A (**e**) | 26 Awst 2001 |
| Adran 73 (fel y'i diwygiwyd) ac Atodlen 2B (**e**) | 26 Awst 2001 |
| Adran 75 (fel y'i diwygiwyd) (**e**) | 26 Awst 2001 |
| Adran 75A (**e**) | 26 Awst 2001 |
| Adrannau 76 i 78 (fel y'u diwygiwyd) (**e**) | 26 Awst 2001 |
| Adran 79(1) (yn rhannol) (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 79(1) (gweddill) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 79(2) ac Atodlen 3 (yn rhannol) (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 79(2) ac Atodlen 3 (gweddill) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 79(3),(4) (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 79(5) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 95 (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 98 (**ch**) | 1 Gorffennaf 2001 |
| Adrannau 107 i 108 (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 110 (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 112 (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 113 (2) i (4) (**a**) | 1 Ebrill 2001 |
| Adran 114 (yn rhannol) (**a**) | 1 Ebrill 2001 |
| Adran 114 (gweddill) (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 115 (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 116 ac Atodlen 4 (yn rhannol) (**b**) | 28 Chwefror 2001 |
| Adran 116 ac Atodlen 4 (yn rhannol) (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 116 ac Atodlen 4 (yn rhannol) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 117(1) ac Atodlen 5 (yn rhannol) (**c**) | 18 Mehefin 2001 |
| Adran 117(1) ac Atodlen 5 (yn rhannol) (**e**) | 26 Awst 2001 |
| Adran 117(2) ac Atodlen 6 (yn rhannol) (**f**) | 1 Ebrill 2002 |

Mae darpariaethau'r Ddeddf y gwneir cofnod mewn perthynas â hwy yn y Tabl isod wedi'u dwyn i rym mewn perthynas â Chymru, yn ogystal â mewn perthynas â Lloegr, ar y dyddiad a bennir gyferbyn â'r cofnod. Cafodd y darpariaethau hynny y dilynir y cofnod amdanynt ag '(**a**)' eu dwyn i rym gan O.S. 2000/2544 (C.72); a'r rhai y dilynir y cofnod amdanynt gan '(**b**)' eu dwyn i rym gan O.S. 2002/629 (C.19).

| *Y Ddarpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* |
|---|---|
| Adran 80(8) (**a**) | 2 Hydref 2000 |
| Adran 94 (**a**) | 2 Hydref 2000 |
| Adran 96 (yn rhannol) (**a**) | 15 Medi 2000 |

| *Y Ddarpariaeth* | *Dyddiad Cychwyn* |
|---|---|
| Adran 96 (gweddill) (**a**) | 2 Hydref 2000 |
| Adran 99 (**a**) | 15 Medi 2000 |
| Adran 100 (**a**) | 2 Hydref 2000 |
| Adran 101 (**a**) | 2 Hydref 2000 |
| Adran 102 (**b**) | 18 Mawrth 2002 |
| Adran 103 (**a**) | 2 Hydref 2000 |
| Adran 104 (yn rhannol) (**b**) | 18 Mawrth 2002 |
| Adran 104 (yn rhannol) (**b**) | 1 Ebrill 2002 |
| Adran 116 ac Atodlen 4 (yn rhannol) (**a**) | 2 Hydref 2000 |
| Adran 117(2) ac Atodlen 6 (yn rhannol) (**a**) | 2 Hydref 2000 |

Yn ychwanegol cafodd amryw ddarpariaethau eraill o'r Ddeddf eu dwyn i rym mewn perthynas â Lloegr gan yr Offerynnau Statudol canlynol: O.S. 2000/2795 (C.79); O.S. 2001/290 (C.17); O.S. 2001/731 (C.26); O.S. 2001/952 (C.35); O.S. 2001/1210 (C.41); O.S. 2001/1536 (C.55); O.S. 2001/2041 (C.68); O.S. 2001/3331 (C.109); O.S. 2001/3852 (C.125); O.S. 2001/4150 (C.134); O.S. 2002/839 (C.22); O.S. 2002/1245 (C.33); O.S. 2002/1493 (C.43); O.S. 2002/1790 (C.55) ac O.S. 2002/2215 (C.70).